

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 9 Ionawr 2012 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

### Presennol

Cyng. Llinos Price (Cadeirydd)  
Cyng. Huw Lewis  
Cyng. Huw Jones (gadael 8.15)  
Cyng. Auriol Williams

Cyng. Dilwyn Jenkins (Is-Gadeirydd)  
Cyng. Islwyn Iago  
Cyng. Lyn Jones (gadael 8.15)  
Hildreth Owen (Clerc)

1. **Croeso'r Cadeirydd.** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i'r cyfarfod. Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb ac aethpwyd ymlaen wedyn i drafod yr agenda.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Ann Stokoe, Des Davies, Haydn Lewis, Morris Davies.

### 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.

**Tud. 659, Eitem 11:** Dylai ddarllen: "Gofynnwyd i'r Cyngor Sir hefyd osod arwyddion lle nid oes pyst er mwyn diogelwch".

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Islwyn Iago bod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Eitem 10, Rhif 190: Y Cyng. Auriol Williams (gadawodd yr ystafell)

### 5. Materion yn codi

**Adventure Playground Wales Ltd:** Dywedodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, y byddai'n cysylltu gyda Mr David Stevenson ynglŷn â'r siglen babanod i'w lleoli yn Chwaraefan y Ferwig.

**Cyfarfod Ymgynghorol nos Iau, 13 Hydref:**

**Carafanau tu cefn i Penffordd:**

**Cinio Nadolig henoed y gymuned.** Bu'r ginio Nadolig yn achlysur llwyddiannus gyda phawb wedi mwynhau. Diolchodd y Cyng. Dilwyn Jenkins i'r Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price am drefnu achlysur hwylus iawn a dywedodd y Cyng. Auriol Williams bod pobl wedi derbyn mwynhad. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Dilwyn Jenkins, Auriol Williams a Des Davies a hefyd y clerch Hildreth Owen am eu presenoldeb a'u cymorth ar y diwrnod.

**Bin Sbwriel tu allan i Ystafell Berkley:** Wedi derbyn caniatâd y cyngor i archebu bin am bris o £98.55 + TAW, trafodwyd ymhellach gyda'r cwmni a chafwyd pris ychydig yn uwch, sef £105. Cytunwyd gyda'r Cadeirydd i barhau â'r archeb.

**Llwybr Cyhoeddus:** Ymateb oddi wrth Mr Phil Johnson (**gweler eitem 10, rhif 194**). **Gofynnwyd i'r clerch gysylltu â Claire Goodman gan fynegu siom y Cyngor nad yw'r darn tir wedi eu bwrcasu ar hyn o bryd ac i ddanfôn llythyr yn gofyn iddynt glirio'r llwybr-troed ger Engar.**

**Pyst pren o Nantyferwig i lythra Gwbert a hefyd pyst concriid ar hyd y llwybr yn Gwbert:** Yn dilyn llythyrion i'r Adran Briffyrdd yn ymwneud â'r ddau gwyn yma, derbyniwyd ateb yn dweud mai'r Adran Gwasanaethau Amgylcheddol oedd yn gyfrifol ac eu bod wedi eu hanfon iddynt (**gweler eitem 10, rhif 186**). **Gofynnwyd i'r clerch ysgrifennu at yr Adran Gwasanaethau Amgylcheddol ynglŷn â'r ddau gwyn yma eto.**

**Ffermydd Maeslyn a Rhandir, Tremain:** Ateb i lythyr y Cyngor yn egluro'r sefyllfa ynglŷn â dwy fferm y Cyngor Sir (**gweler eitem 10, rhif 187**). **Awgrymwyd bod y clerch yn danfon copi o'r llythyr dderbyniwyd oddi wrth y Cyngor Sir ymlaen i Mr Gruff Davies, Fferm Rhandir, ac i Mr Arwyn Thomas, Fferm Maeslyn, a hefyd gofyn i Mr Thomas am gais cynllunio ger Fferm Maeslyn**

**Pwyllgor Lles Pentref Penparc:** Llythyr ynglŷn â Cae Gwyrdd, Penparc (**gweler eitem 10, rhif 197**). **Penderfynwyd aros tan bod y Pwyllgor Lles wedi derbyn ateb oddi wrth y Cyngor Sir cyn trafod ymhellach.**

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

<i>Gŵyl Fawr Aberteifi (cais am y flwyddyn 2011)</i>	£100 (wedi ei dalu)
Cronfa Goffa T. Llew Jones	£50 (wedi ei dalu)
Clwb Pêl-droed Penyparc (cyfraniad at byst pêl-droed)	£272 (wedi ei dalu)
<i>Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd</i>	£100 (wedi ei dalu)
<i>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ysgol Penyparc</i>	£100 (wedi ei dalu)
<i>Ysgol Feithrin Penyparc</i>	£100 (wedi ei dalu)
"Homestart" (Cefnogaeth a Chyfeillgarwch i deuluoedd)	(I'w drafod ym mis Ebrill 2012)
<i>Cyngor ar Bopeth Ceredigion</i>	(i'w drafod ym mis Ebrill 2012)
Urdd Gobaith Cymru	(i'w drafod ym mis Ebrill 2012)
<i>Cymorth Canser Macmillan</i>	(i'w drafod ym mis Ebrill 2012)

*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais*

## 7. Cynllunio

<i>Rhif y Cais.</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A110732	Llyswen, Gwbert, Aberteifi: Codi estyniad.	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad

**Cyfarfod Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Ionawr 2012

**Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:**

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A110748	Codi bungalo ar ddarn o dir rhwng Isfryn a Panteg, Penyparc	Wedi ei ganiatáu

## 8. Cyfarfod Safle. Ni chynhelir cyfarfod safle.

## 9. Materion Ariannol.

**Biliau wedi eu talu.**

BDO (tâl yr archwilwyr allanol)	101206	£162.00
Glasdon (bin sbwriel i'w leoli tu allan i Ystafell Berkley)	101207	£126.00
SWALEC (trydan Ystafelloedd Newid Ystafell Berkley)	101208	£ 20.69
Hildreth Owen (Cyflog a chostau'r Clerc)	101209	£1,032.52

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Huw Lewis bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Derbyniadau:** Dim.

**Materion ariannol eraill:**

BDO: Mae'r datganiad ariannol am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2011 wedi ei ddiweddarau a'i arwyddo gan yr archwilwyr allanol, BDO, ac fe'i cyflwynwyd i'r cyngor. Fe'i derbyniwyd gan yr aelodau. Cadarnhaodd y clerc bod "Taflen Terfyniad" y cyfrifon wedi ei harddangos ar yr hysbysfyrddau am 14 diwrnod.

Cynghorwyd y Cyngor i gynyddu raddfa'r "Fidelity Guarantee". Wedi cysylltu gyda chwmni Zurich Municipal mae'r clerc wedi eu caniatáu i gynyddu'r swm o £20,000 i £30,000 heb gynydd yn y pris. Derbyniwyd atodlen newydd yn cadarnhau bod y swm bellach wedi cynyddu i £50,000 heb gynydd.

**Archwiliad ar ran y Cyngor:** Cytunwyd bod y Cyng. Ann Stokoe yn archwilio'r cyfrifon yn ystod y mis nesaf.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Gohebiaeth

186	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd)	Ateb ynglŷn â'r pyst pren o Nantyferwig i lythyrfu Gwbert a physt concriid ar hyd y llwybr yn Gwbert.	<b>Gweler eitem 5.</b>
187	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Priffyrdd)	Ateb ynglŷn â dwy fferm y Cyngor Sir yn Nhremain.	<b>Gweler eitem 5</b>
188	Llywodraeth Cymru	Ymgynghoriad ar y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)	Nodwyd
189	Y Cyn-Arolygydd a Mrs Wynne Evans	Carden o ddiolch am y cinio Nadolig yng Nghaffi'r Emlyn.	Nodwyd
190	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Gwasnaethau Amgylcheddol a Thai)	Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion 2007-2022. Diweddariad.	<b>Copi o'r llythyr wedi ei ddsbarthu i'r Cynghorwyr. Penderfynwyd peidio ymateb ymhellach.</b>
191	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Priffyrdd)	Ateb ynglŷn â llythyron anfonwyd yn ymwneud â gwteri angen eu clirio, a cheubwll.	Nodwyd
192	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Priffyrdd)	Adroddiad Archwilio Meysydd Chwarae yn ymwneud â Chwaraefan y Ferwig.	Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle yn y chwaraefan cyn cyfarfod mis Mawrth y Cyngor.
193	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Cydnabyddiaeth o gopi o lythyr anfonwyd i Mr Ian Dutch ynglŷn â'r ddolen goll yn Gwbert.	Nodwyd
194	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai)	Ymateb i lythyr anfonwyd i Mr Ian Dutch ynglŷn â'r ddolen goll yn Gwbert.	<b>Gweler eitem 5</b>
195	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau.	Copi i'w ddsbarthu i'r Cynghorwyr.
196	Awdurdod Heddlu Dyfed Powys	Hysbysiad o'r Archwiliad Cyfrifon am y flwyddyn yn gorffen 31/3/2011	Copiau wedi eu ddsbarthu ar yr hysbysfyrdau.
197	Pwyllgor Lles Penyparc	Copi o gyfrifon Cae Gwyrdd, Penyparc am y tair blynedd ddiwethaf.	<b>Gweler eitem 5</b>
198	Clwb Pêl-droed, Penyparc	E-bost yn gofyn i'r Cyngor drefnu bod y Cae Pêl-droed yn cael ei rowlio.	Gofynnwyd i'r Cyng. Des Davies gysylltu â Mr Aled Rees ynglŷn â hyn.

## 11. Materion Eraill.

### **Balchder Pentrefi: Awgrymiadau:**

Bwrdd Gwybodaeth i'w leoli ar safle yn y gymuned

Gwella mynedfa Hen Ysgol y Ferwig

**Golau tu allan i Ystafell Berkley:** Daeth i sylw'r cyngor bod y golau yma ymlaen yn barhaol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n archwilio'r golau.

**Lloches Bws yn Gwbert:** Mae'r Cyng. Dilwyn Jenkins wedi trwsio'r lloches. Diolchwyd iddo gan y

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd.

**Arwydd ar waelod y stepiau yn Mwnt:** Mae'r arwydd hyn yn darllen "Danger Unstable Cliffs, Creiau Ansefydlog" Gofynnwyd i'r clerc achwyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gan ofyn iddynt gywiro'r cam-sillafu yn y Gymraeg.

**Ceubwll ar y ffordd rhwng Tyhen a Blaenllynan:** Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r ceubwll.

**Arwydd Verwig Road:** Gofynnwyd i'r clerc achwyn i Gyngor Tref Aberteifi unwaith yn rhagor ynglŷn â'r arwydd a gofyn iddynt gysylltu â'r Cyngor Sir i newid hwn i "Heol y Ferwig".

**Gwyliau'r Clerc:** Dymunwyd yn dda i'r clerc ar ei thaith i Seland Newydd.

**12. Dyddiad Cyfarfod nesaf y Cyngor:** 6 Chwefror 2012 yn Ystafell Berkley, Penyparc am 7.30yh.

## **Cyfarfodydd y Cyngor am 2012:**

5 Mawrth (F)    2 Ebrill (YB)    14 Mai (F)    11 Mehefin (YB)  
9 Gorffennaf (F)    3 Medi (YB)    1 Hydref (F)    5 Tachwedd (YB)    3 Rhagfyr (F).

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig.    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 9 January 2012 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

### Present:

Cllr Llinos Price (Chairperson)

Cllr Huw Lewis

Cllr Huw Jones (left 8.30)

Cllr Auriol Williams

Cllr Dilwyn Jenkins (Vice Chairman)

Cllr Islwyn Iago

Cllr Lyn Jones (left 8.30)

Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the meeting. She wished everyone a Happy New Year and then proceeded to discuss the agenda.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs Ann Stokoe, Des Davies, Haydn Lewis, Morris Davies.
- 3. Minutes of the previous meeting.**  
**Page 659, Item 11:** Should read: "The County Council were also asked to place markers where the posts were missing".  
With the above corrections, it was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Islwyn Iago that the minutes for December were correct.
- 4. Declaration of personal interests:** Item 10, No 190: Cllr Auriol Williams (who left the room)
- 5. Matters arising.**  
**Adventure Playground Wales Ltd:** The Chairperson stated that she would contact Mr David Stevenson regarding the cradle swing to be placed at Ferwig Playarea.  
**Consultative Meeting, Thursday, 13 October.**  
**Caravans parked to the rear of Penffordd:**  
**Christmas Dinner for the Senior Citizens of the Community:** The Christmas Dinner was very successful and an enjoyable time was had by all. Cllr Dilwyn Jenkins thanked the Chairperson for organising a very successful and happy event, and Cllr Auriol Williams added that the event had been a resounding success. The Chairperson thanked Cllrs Dilwyn Jenkins, Auriol Williams and Des Davies and also the clerk Hildreth Owen for being present and for their assistance on the day.  
**Bin to be placed outside Ystafell Berkley:** Following the Council's decision to purchase a bin for a price of £98.55 + VAT, the company then contacted the clerk with a slightly higher sum of £105 + VAT. It was agreed with the Chairperson to go ahead with the purchase.  
**Missing Link at Gwbart:** Reply received from Mr Phil Johnson (see item 10, no. 194). **The clerk was asked to write to Claire Goodman expressing the Council's disappointment that the purchase of the land is still not completed and asking them once again to clear the foot-path adjacent to Engar, making it possible for walkers to use it.**  
**Wooden Posts from Nantyferwig to Gwbart slipway and concrete posts along the new path at Gwbart:** Following letters sent to the Highways Department regarding these two issues, a reply was received stating that the Environmental Services and Housing should be dealing with these and that our letter had been forwarded to them. **The clerk was asked to write to the Environmental Services and Housing raising these issues once more.**  
**Maeslyn and Rhandir Farms, Tremain:** Reply received from the County Council regarding the future of these farms. It was suggested that the clerk send a copy to the two tenants and also asking Mr Thomas of Rhandir Farm whether he was in the process of applying for permission to build on his own land in the vicinity of Rhandir.  
**Pwyllgor Lles Penyparc:** Letter received from Pwyllgor Lles Penyparc regarding Cae Gwyrdd, Penyparc (see item 10, no. 197). **It was agreed to postpone action until the committee receives a reply from the County Council.**

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

<i>Gŵyl Fawr Aberteifi (application for 2011)</i>	£100 (paid)
T. Llew Jones Memorial Fund	£ 50 (paid)
Penyparc Football Club (Donations towards goal posts)	£272 (paid)
<i>Oxygen Therapy Centre Cardigan Ltd</i>	£100 (paid)
<i>Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, Ysgol Penyparc</i>	£100 (paid)
<i>Ysgol Feithrin Penyparc</i>	£100 (paid)
"Homestart" (Support and Friendship for families)	(To be discussed in April 2012)
<i>CAB Ceredigion</i>	(To be discussed in April 2012)
Urdd Gobaith Cymru	(To be discussed in April 2012)
<i>Macmillan Cancer Research</i>	(To be discussed in April 2012)
<i>Names in italics = accounts forwarded with applications</i>	

## 7. Planning

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>Comments</i>
A110732	Llyswen, Gwbert, Cardigan: Erection of an extension.	The Council has no objections.

**County Council's Planning Meeting.** Next meeting: 11 January, 2012

### Applications approved or refused by the County Council.

<i>Application No.</i>	<i>Address</i>	<i>County Council decision</i>
A110748	Erection of a bungalow on land between Isfryn and Panteg, Penyparc	Approved

## 8. Site meeting. No site meeting was held.

## 9. Financial Matters.

### Bills paid:

BDO (external audit fee)	101206	£162.00
Glasdon (bin to be placed outside Ystafell Berkley)	101207	£126.00
SWALEC (electricity for Changing Rooms at Ystafell Berkley)	101208	£ 20.69
Hildreth Owen (Clerk's wages and expenses)	101209	£1,032.52

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Huw Lewis that the above bills be paid.

**Receipts:** No receipts

### Other financial matters.

The annual return for the financial year 31 March 2011 has been duly signed and completed by the external auditors, BDO, and was presented to the council. It was approved and accepted by members.

The clerk confirmed that the "Notice of Conclusion" of audit has been displayed for 14 days on the notice board. BDO advised the Council to increase the "Fidelity Guarantee". After the clerk consulted with Zurich Municipal she authorised them to increase the sum from £20K to £30K without an increase in premium. On receipt of the new schedule it was noted that the company had increased the "Fidelity Guarantee" to £50K without increase in premium.

**Council Audit:** It was agreed that Cllr Ann Stokoe should conduct an audit of the accounts during the next month.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Correspondence

186	Ceredigion County Council (Highways Department)	Reply regarding wooden posts from Nantyferwig to slipway at Gwbert and also the concrete posts along the new footpath at Gwbert.	<b>See item 5</b>
187	Ceredigion County Council (Highways Department)	Reply regarding the two council-owned farms at Tremain.	<b>See item 5</b>
188	Welsh Government	Consultation on Local Government Byelaws (Wales) Bill.	Noted
189	Inspector and Mrs Wynne Evans.	Christmas card thanking the Council for the Christmas Dinner at Emlyn Cafe.	Noted
190	Ceredigion County Council (Department of Environmental Services and Housing)	Ceredigion County Council Local Development Plan 2007-2022 (Update)	<b>Copy of letter circulated to all Councillors. It was decided not to respond further.</b>
191	Ceredigion County Council (Highways Department)	Confirmation of receipt of letter regarding the clearing of gutters and repairing potholes.	Noted
192	Ceredigion County Council (Highways Department)	Playground Inspection Report for Ferwig Playarea.	It was agreed to arrange a site meeting prior to the Council meeting in March.
193	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Confirmation of receipt of copy of letter sent to Mr Ian Dutch regarding the missing link at Gwbert.	Noted
194	Ceredigion County Council (Department of Environmental Services and Housing)	Reply to Mr Ian Dutch's letter regarding the missing link at Gwbert.	<b>See item 5</b>
195	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Ethics and Standards Committee meeting dates.	Copy handed to Councillors.
196	Dyfed-Powys Police Authority	Notice of Conclusion of the Audit of Accounts year end 31/3/11	Copies placed on Noticeboards.
197	Pwyllgor Lles Penyparc	Copies of accounts for Cae Gwyrdd for the last three years.	<b>See item 5</b>
198	Penyparc Football Club	E-mail received from Richard Abbott requesting that the Council arranges to have the Football Pitch rolled whilst the ground is damp.	Cllr Des Davies asked to contact Mr Aled Rees, Trefere regarding this.

## 11. Other Matters

### **Village Renewal Fund: Suggestions:**

Information Board to be located in the community.

Improvements to the entrance to the school yard of Hen Ysgol y Ferwig.

**Light outside Ystafell Berkley:** It was brought to the Council's attention that this light is permanently lit. The Chairperson stated that she would investigate further.

**Bus Shelter at Gwbert:** Cllr Dilwyn Jenkins has carried out repair work to the noticeboard at Gwbert. The Chairperson expressed her thanks to Cllr Jenkins.

**Sign at foot of steps at Mwnt:** This sign reads "Danger Unstable Cliffs, Creiau Ansefydlog". The clerk was asked to write a letter of complaint to the National Trust asking them to correct the Welsh translation.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Pothole on road between Tyhen and Blaenllynan:** The clerk was asked to contact the County Council regarding this pothole.

**Verwig Road Sign:** The clerk was asked to request Cardigan Town Council to pressurise the County Council to place a new sign at the junction: "Heol y Ferwig".

**Clerk's Holidays:** The Councillors wished the clerk well on her holiday to New Zealand.

12. **Date of next Council Meeting:** 6 February, 2012 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

## **Council Meetings 2012:**

5 March (F)    2 April (YB)    14 May (F)    11 June (YB)    9 July (F)  
3 September (YB)    1 October (F)    5 November (YB)    3 December (F).

*Denotes:* F = Ferwig Old School.    YB = Ystafell Berkley.    AGM = Annual General Meeting